

**Arolygiad o Bractis  
Deintyddol Cyffredinol (Ile  
rhoddwyd rhybudd)**

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf,

**Jamie Pugh Dental Health  
Ltd.**

18 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .....	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	14
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	17
6.	Y Camau Nesaf.....	19
	Atodiad A.....	20

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o bractis Jamie Pugh Dental Health Ltd., 15-16 Stryd Caerdydd, Aberdâr, CF44 7DP yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 18 Chwefror 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*<sup>1</sup>.

Mae'r practis yn cynnig triniaeth i gyfuniad o gleifion y GIG a chleifion preifat. Mae'r ddau ddeintydd sy'n gweithio yn y practis hefyd wedi'u cofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat a gan hynny maent yn amodol ar ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

---

<sup>1</sup> Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.  
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf>

- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Jamie Pugh Dental Health Ltd yn darparu gwasanaethau i gleifion yn nhref Aberdâr. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Roedd y practis yn cyflogi tîm o ddeg o staff ar adeg ein harolygiad. Roedd hyn yn cynnwys y prif ddeintydd, deintydd cyswllt, pedair nyrs ddeintyddol (y mae dwy ohonynt weithiau'n gweithio fel derbynnydd) ac un derbynnydd. Roedd y tîm hefyd yn cynnwys un hylenydd, un therapydd/hylenydd a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol.

## 4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Jamie Pugh Dental Ltd yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yn y practis a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu gofal a thriniaeth.

Ar y cyfan roedd cleifion yn derbyn gofal gan staff oedd yn cael cefnogaeth i ddarparu gofal a thriniaeth i safon briodol. Roedd angen gwelliannau fodd bynnag mewn perthynas â chyd-destun cofnodion cleifion.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom hefyd fod y practis yn defnyddio offer laser Dosbarth 4 nad oedd wedi ei gofrestru ag AGIC ar gyfer ei ddefnyddio fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Yn sgil y mater hwn anfonodd AGIC lythyr sicrhau ar unwaith at y practis.

Roedd y practis yn cael ei redeg yn dda ac roedd ganddo dîm o staff ymroddedig a brwdfrydig. Roedd y prif ddeintydd hefyd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd gyda chymorth ei wraig yn ei rôl hithau fel rheolwr practis rhan-amser. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddiant perthnasol.

Yn gyffredinol, roedd adeilad y practis yn darparu amgylchedd diogel a glân i gleifion dderbyn triniaeth.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dyweddodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yn y practis a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu gofal a thriniaeth.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Hefyd, gwnaethom siarad â nifer fach o gleifion a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad (dau o bobl).

Dychwelwyd ugain o holiaduron AGIC. Roedd y cleifion a wnaeth gwblhau'r holiaduron a'r rhai y siaradwyd â nhw wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers rhwng tair wythnos ac 16 mlynedd. Nododd pob un ohonynt (22 o bobl) bod tîm staff y practis yn rhoi croeso iddynt bob amser. Gwnaethant sylwadau megis:

*'Deintydd/practis deintyddol gorau rwyf wedi bod iddo. Proffesiynol iawn a phawb yn gwenu'*

*'Croesawgar iawn. Bob amser yn cynnig paned o de'*

*'Rydym bob amser yn cael gofal da iawn yn y ddeintyddfa, yn cael croeso ac yn cael cyngor manwl a chynhwysfawr ar fesurau ataliol a gofal yn dilyn triniaeth'*

Dim ond dau o'r 20 o gleifion a gwblhaodd holiadur a ddywedodd nad oeddent yn gwybod sut i gael gofal pan oedd y practis ar gau ac roedd y ddau glaf y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gallu disgrifio sut i drefnu gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau os oedd angen. Yn ogystal, roedd AGIC wedi ffonio'r practis y tu allan i oriau gwaith arferol, a chanfod bod y neges ar y peiriant ateb yn cynnwys y rhif tu allan i oriau mewn argyfwng. Roedd y rhif cyswllt hefyd yn cael ei arddangos ar ffenest adeilad y practis i helpu cleifion ac aelodau o'r cyhoedd.

Roedd y practis yn agor am 8am un bore ac roedd yn aros ar agor tan 8pm un noson yr wythnos, i helpu cleifion i wneud apwyntiad rheolaidd ar adeg oedd yn gyfleus iddyn nhw. Datgelodd sgwrs gyda rheolwr y practis hefyd bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i weld a thrin cleifion brys ar y diwrnod iddynt gysylltu â'r practis.

Nododd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y system hon ac nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad.



Roedd dau boster yn cael eu harddangos y tu ôl i ddesg y dderbynfa mewn ymdrech i gynnig gwybodaeth i gleifion y GIG a chleifion preifat am sut y gallent leisio unrhyw bryderon ynglŷn â'u gofal neu driniaeth ddeintyddol. Fodd bynnag, roedd y print yn fân iawn ar y ddau boster oedd yn golygu efallai na fyddai rhai cleifion yn gallu darllen yr wybodaeth a ddarparwyd. Yn ogystal, nid oedd poster y GIG yn hysbysu cleifion am eu hawl i geisio cymorth gan y Cyngor Iechyd Cymuned Lleol gydag unrhyw bryderon posib.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai proses gwyno'r GIG fod yn fwy gweladwy i gleifion a dylai gynnwys manylion y Cyngor Iechyd Cymuned Lleol.***

Nod oedd y poster ar gyfer cwynion i gleifion preifat yn cynnwys cyfeiriad at AGIC fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Hysbysir y practis o'r angen i roi manylion i gleifion preifat am eu hawl i ddwyn pryderon at sylw AGIC fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.***

Ni welsom gopi o daflen gwybodaeth i gleifion y practis. Er hynny, cawsom gopi o Gylchlythyr Cleifion y practis oedd yn cynnwys nifer o erthyglau ynghylch hyrwyddo iechyd deintyddol.

Pan ofynnwyd iddynt am eu barn ar y gwasanaeth cyffredinol roeddent wedi ei dderbyn yn y practis, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn. Gweler sampl o sylwadau ysgrifenedig ychwanegol gan gleifion isod:

*"Gwasanaeth ardderchog. Staff cyfeillgar iawn. Deintydd o'r radd flaenaf"*

*'Rwy'n hynod o hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan (enw'r deintydd) a'i dîm – yn arbennig yr agweddau addysgol a ddarparir i'r plant'*

*'Mae'r staff yn y practis yn broffesiynol iawn ac yn gwrtais ym mhob ffordd'*

Ac

*'Mae'r practis yn cael ei redeg yn broffesiynol ac mae bob amser yn edrych yn drefnus, yn lân ac yn groesawgar'*

Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oedd gan y practis broses ffurfiol ar waith i asesu barn cleifion yn rheolaidd a gweithredu yn ei sgil. Fodd bynnag,

cawsom wybod hefyd bod y practis yn ystyried cwblhau arolwg cleifion yn y dyfodol a bod y tîm staff yn ceisio canfod barn y cleifion ar y gwasanaethau a ddarperir ar bob ymweliad.

## ***Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru***

**Ar y cyfan roedd cleifion yn derbyn gofal gan staff oedd yn cael cefnogaeth i ddarparu gofal a thriniaeth i safon briodol. Roedd angen gwelliannau fodd bynnag mewn perthynas â chyd-destun cofnodion cleifion.**

**Yn ystod ein harolygiad, gwelsom hefyd fod y practis yn defnyddio offer laser Dosbarth 4 nad oedd wedi ei gofrestru ag AGIC ar gyfer ei ddefnyddio fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Yn sgil y mater hwn anfonodd AGIC lythyr sicrhau ar unwaith at y practis.**

Gwnaethom ystyried y trefniadau oedd ar waith yn y practis ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Roedd y mwyafrif o'r dogfennau gorfodol yn y practis; fodd bynnag, nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystiolaeth fod y 'rheolau lleol' yn cael eu harddangos a ddylai ddangos yn amlwg yr ardal ym mhob deintyddfa lle defnyddir offer pelydr-X (er diogelwch y staff a'r cleifion). Nid oeddem chwaith yn gallu dod o hyd i gyfarwyddiadau ynghylch beth i'w wneud pe na bai offer yn gweithio'n iawn neu ynghylch trefniadau wrth gefn ar gyfer prosesu a storio pelydr-X, yn ôl y gofyn.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod rheolau lleol yn cael eu harddangos yn eglur ym mhob deintyddfa. Yn ogystal, rhaid i ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd y practis gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan safonau'r GIG.***

Gwelwyd nad oedd arwydd yn rhybuddio rhag ymbelydredd wedi'i gosod wrth fynedfa'r ddeintyddfa er mwyn rhybuddio aelodau'r cyhoedd bod offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio. Gwnaethom dynnu sylw'r practis at hyn yn ystod ein hymweliad. Cafodd AGIC gadarnhad bod arwyddion wedi cael eu harchebu yn dilyn yr arolygiad. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i olygu nad oedd cleifion ac aelodau o'r cyhoedd wedi cael y rhybudd gofynnol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cynghorir y practis i arddangos arwyddion rhybudd priodol yn y rhan o'r practis lle defnyddir offer pelydr-X.***

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â chynnal a chadw pelydr-X ac roedd hyfforddiant ar gael i staff ac yn gyfredol.

Dangosodd trafodaeth gyda'r tîm deintyddol nad oedd ganddynt dystiolaeth o lythyr yn hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am ddiogelwch

radiograffig, fel sy'n ofynnol. Derbyniodd AGIC wybodaeth oedd yn cadarnhau bod y practis wedi cysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ystod yr wythnos yn dilyn yr arolygiad er mwyn rhoi sylw i'r mater hwn.

Gwelsom fod cofnodion ysgrifenedig yn cael eu cadw o ran nifer ac ansawdd graddio pelydrau-X a gymerwyd ar gyfer pob claf. Fodd bynnag nid oeddem yn gallu canfod tystiolaeth o unrhyw archwiliadau sicrhau ansawdd a allai fod wedi arwain at nodi gwelliannau angenrheidiol i'r elfen hon o ofal cleifion.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Hysbysir y practis o'r angen i sefydlu system ar gyfer archwiliad ffurfiol/gwerthusiad clinigol o ansawdd delwedd (pelydr-X) fel sy'n ofynnol gan Reoliadau IR(ME)R 2000 a safonau'r GIG.***

Roedd gan y staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau ar gyfer achos o argyfwng (cwympiad) yn y practis. Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i nodi a gwirio dyddiadau dod i ben y cyffuriau fel y gellid archebu mwy ohonynt yn ôl yr angen.

Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol gan gynnwys sut i weinyddu adfywiad cardio-pwlmonaidd (CPR). Yn ogystal, roedd dau aelod o'r tîm deintyddol yn rhannu rôl y person penodol ar gyfer cymorth cyntaf; ar ôl cwblhau hyfforddiant perthnasol diweddar ar y pwnc hwn.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer gwaredu ar wastraff peryglus. Gwelsom hefyd fod ychydig o wastraff peryglus wedi cael ei storio'n ddiogel yn y seler a dywedwyd wrthym fod bagiau a chynwysyddion offer miniog yn cael eu cadw'n ddiogel dan glo mewn ardal arall yn barod i gael eu casglu. Fodd bynnag, dangosodd trafodaeth gyda'r tîm deintyddol nad oedd gan y practis fynediad at gynwysyddion penodol ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus penodol (amalgam)<sup>2</sup>. Mynegodd y practis ei barodrwydd i fynd i'r afael â'r mater hwn yn brydlon.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei wahanu mewn cynwysyddion priodol i gael ei waredu, yn unol â chanllawiau cyfredol.***

---

<sup>2</sup> Mae Erthygl 4 o'r Gyfarwydddeb Gwastraff (75/442/EEC) yn ei gwneud yn ofynnol bod gwastraff yn cael ei waredu heb achosi perygl i iechyddynol na'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys gwastraff amalgam gan bractisau deintyddol.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a dadheintio offer a ddefnyddir yn y practis. Dywedodd nyrs ddeintyddol wrthym mai eu cyfrifoldeb nhw oedd sicrhau bod offer yn cael ei lanhau ar ôl ei ddefnyddio. Hefyd disgrifiodd y nyrs yn fanwl y broses a ddefnyddiwyd ganddynt ac ystyriwyd ei bod yn foddhaol. Roedd hyn er gwaethaf yr heriau o orfod ymgymryd â glanhau offer â llaw i ddechrau yn y ddeintyddfa a'r angen i sicrhau bod y perygl o groes heintio'n cael ei leihau wrth drosglwyddo offer i'r ardal amlbwrpas i gael ei sterileiddio.

Roedd yr awtoclaf<sup>3</sup> mewn ardal aml-bwrpas ger y ddeintyddfa (wedi ei gwahanu gan bared wydr a choridor cul). Gwelsom fod y practis newydd gyflwyno system newydd ar gyfer cofnodi paramedrau gweithredu llawn yr awtoclaf yn unol â gofynion gorfodol.

Gwelsom fod rhywfaint o offer yn barod i'w ddefnyddio gyda chleifion a'i fod wedi ei selio mewn pecyn plastig ar ôl cael ei sterileiddio yn ôl yr angen. Roedd nodyn ar y pecynnau gyda 'dyddiad defnyddio' ac roeddent yn cael eu cadw mewn droriau yn y ddeintyddfa.

Gwelsom fod dwy uned laser yn y practis, ac nad oedd un ohonynt yn cael ei defnyddio. Nid oedd un o'r unedau wedi cael ei chofrestru ag AGIC fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Yn ogystal, nid oedd y practis yn gallu rhoi manylion i ni am Gyngorydd Amddiffyn Rhag Laser penodedig ac nid oedd 'rheolau lleol' yn cael eu harddangos yn y deintyddfeydd fel sy'n ofynnol (o ran defnydd cywir neu beryglon sy'n gysylltiedig â'r defnydd o'r laser<sup>4</sup> Dosbarth 4 dan sylw). Mae'r practis wedi cael ei hysbysu na ddylid defnyddio'r offer hwn nes y bydd yn cael ei hysbysu fel arall gan AGIC. Mae'r materion hyn hefyd wedi arwain at gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith gan AGIC, gan fod cleifion yn cael eu gosod mewn perygl diangen o anaf ac am fod diffyg cofrestriad gydag AGIC yn doriad amlwg o'r Rheoliadau. Mae'r broses o gofrestru'r offer laser gydag AGIC wedi dechrau fodd bynnag ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Nid oeddem yn gallu canfod tystiolaeth o dystysgrif cynnal a chadw na chofnod gwasanaethu dilys a chyfredol ar gyfer yr uned laser Dosbarth 4. Gwelsom y

---

<sup>3</sup>Siambwr bwysedd yw **awtoclaf** a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau gan ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

<sup>4</sup>Mae laserau Dosbarth 4 yn ddyfeisiadau pwerus iawn. Mae laserau Dosbarth 4 yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith penodol mewn ymchwil, meddygaeth a diwydiant .

dystysgrif cynnal a chadw ddiwethaf oedd yn y practis oedd â dyddiad 2011 arni. Ers ein harolygiad, mae'r practis wedi gwneud trefniadau i gontractwr allanol wasanaethau'r laser Dosbarth 4 (yn ystod mis Mawrth 2015).

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Mae angen i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC o dystysgrif cynnal a chadw cyfredol a dilys mewn perthynas â'r uned laser Dosbarth 4.***

Roedd gan staff fynediad at fenig trwchus a menig untro. Gwelsom hefyd fod biniau ar gyfer offer miniog wedi eu gosod mewn ardaloedd addas yn y ddwy ddeintyddfa ac nad oeddent yn orlawn, oedd yn golygu bod staff a chleifion yn cael eu diogelu rhag anaf a chroes heintio.

Roedd yr holl staff yn gwisgo iwniform ac roedd eu breichiau'n noeth "o'r penelin i lawr" wrth roi triniaeth ac wrth olchi dwylo a oedd yn helpu i leihau'r perygl o groes heintio.

Gwelsom fod archwiliad trwyadl wedi ei gynnal am y tro cyntaf yn ddiweddar o'r trefniadau atal a rheoli heintiau. Yn sgil yr archwiliad hwn nodwyd gwelliannau oedd eu hangen, ac roedd y prif ddeintydd wrthi'n eu hystyried. Datgelodd ein trafodaethau gyda'r tîm deintyddol hefyd fod pwyslais ar hyrwyddo gwasanaeth diogel, o ansawdd da, trwy gynnal gwiriadau dyddiol ac wythnosol mewn perthynas â defnyddio offer dadheintio.

Gwnaethom edrych ar sampl o ddeg o ffeiliau cleifion oedd yn cael eu cadw ar gyfrifiadur. Ar y cyfan, gwelsom fod cofnodion yn rhoi digon o wybodaeth am drafodaethau a gafwyd gyda chleifion am opsiynau triniaeth a chostau. Fodd bynnag, nid oedd naw cofnod yn cynnwys unrhyw gyfeiriad ysgrifenedig at hyrwyddo iechyd deintyddol, nac ansawdd/graddio pelydrau-X oedd yn cefnogi penderfyniadau i fwrw ymlaen gyda thriniaeth. Yn ogystal, nid oedd pedwar o'r deg cofnod yn darparu digon o dystiolaeth gofnodedig o sut yr oedd y practis wedi cael cydsyniad y cleifion i dderbyn triniaeth. Dangosodd trafodaeth gyda'r deintyddion a gwybodaeth yn holiaduron AGIC y cleifion oedd wedi eu cwblhau bod dulliau cyfnewid gwybodaeth da ar waith yn ystod ymgynghoriadau deintyddol; fodd bynnag, nid oedd yr agweddau uchod ar gofnodion deintyddol y cleifion o safon foddhaol.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Hysbysir y practis o'r angen i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys digon o fanylion yn dilyn ymgynghoriadau a thriniaethau deintyddol. Mae hyn yn unol â safonau cyfredol y GIG.***

Datgelodd sgwrs â rheolwr y practis fod y practis wedi cyflwyno'r defnydd o 'clinipads'<sup>5</sup> yn ddiweddar i alluogi cleifion i gwblhau eu manylion newydd/diweddaraf a hanes meddygol sydd wedyn yn cael eu lanlwytho i system gyfrifiadur y practis. Yna roedd cleifion yn gallu llofnodi eu hanes meddygol gan ddefnyddio llofnod electronig. Fodd bynnag, er bod y system arloesol hon yn ddefnyddiol ar gyfer cipio data byw, nid oedd hanesion meddygol yn cael eu cydlofnodi'n electronig gan y deintydd ac nid oedd unrhyw gyfeiriad cofnodedig at sgysiau rhwng y deintydd a'r claf mewn perthynas â'u hanes meddygol. Yn ogystal, efallai y byddai'n well gan rai cleifion sy'n ymweld â'r practis beidio â darparu gwybodaeth yn defnyddio'r dull hwnnw.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Hysbysir y practis o'r angen i sicrhau bod tystiolaeth wedi ei chofnodi bod deintyddion yn ystyried hanesion meddygol cleifion newydd/wedi eu diweddarau.***

Gwnaethom edrych ar yr adnoddau clinigol yn y deintyddfeydd a gwelsom eu bod yn lân a hylan.

---

<sup>5</sup>Mae 'clinipads' yn galluogi deintyddfeydd i ddefnyddio llechen electronig i gasglu manylion, hanesion meddygol a llofnodion cleifion.

## ***Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Roedd y practis yn cael ei redeg yn dda ac roedd ganddo dîm o staff ymroddedig a brwdfrydig. Roedd y prif ddeintydd hefyd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd gyda chymorth ei wraig yn ei rôl hithau fel rheolwr practis rhan-amser. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddiant perthnasol.**

Roedd y practis yn cyflogi tîm o ddeg o bobl, ac roedd rhai ohonynt wedi gweithio yn y practis ers sawl blwyddyn. Gwelsom hefyd fod trosiant y staff a lefelau salwch/absenoldeb yn isel. Nid oedd y practis byth yn defnyddio nyrsys asiantaeth chwaith. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal gan staff a oedd yn gyfarwydd â gwasanaeth ac ethos y practis. Roedd gwraig y deintydd yn gweithio yn y practis yn bennaf fel rheolwr practis rhan-amser; roedd yn rhannu elfennau o'r swydd gydag un o staff hirdymor y dderbynfa.

Dywedodd staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi gan y deintydd a'r rheolwr practis. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym y byddent yn hapus i drafod unrhyw bryderon yn ymwneud â gwaith gyda'r deintydd. Cadarnhaodd sgwrs â rheolwr y practis fod staff newydd yn cael hyfforddiant sefydlu sydd wedi ei deilwra ar gyfer eu hanghenion. Roeddem yn gallu gweld enghraifft o raglen sefydlu oedd yn barod i'w defnyddio yn ôl yr angen.

Gwelsom fod gan y staff gontract cyflogaeth a dangosodd y cofnodion fod gan staff fynediad at gyfleoedd hyfforddi rheolaidd oedd yn berthnasol i'w gwaith. Roedd cofnodion o hyfforddiant staff trwy weithdai mewnol a chysiau allanol.

Dangosodd sgwrsiau gyda staff nad oedd system ar waith ar gyfer cynnal arfarniadau staff a fyddai'n annog trafodaethau dwy ffordd ynghylch arferion clinigol, ac yn rhoi cyfle i drafod effeithiolrwydd hyfforddiant a dderbyniwyd, a hyfforddiant posibl at y dyfodol.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai staff dderbyn arfarniadau amserol i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, ac er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion hyfforddiant neu berfformiad.***

Gwelsom fod gan y staff gontractau cyflogaeth ar waith a oedd wedi'u llofnodi a'u dyddio ac roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.



Wrth edrych ar gofnodion y staff gwelsom fod gan y practis dystiolaeth gyfredol i ddynodi bod yr holl staff perthnasol wedi cael brechiad Hepatitis B. Wrth drafod â rheolwr y practis cadarnhawyd hefyd bod gan y practis gytundeb ffurfiol gyda'r bwrdd iechyd ar gyfer unrhyw faterion iechyd galwedigaethol (fel imiwneiddio, neu gymorth/cyngor pe bai rhywun yn cael anaf â nodwydd). Roedd hyn yn golygu bod staff a chleifion yn cael eu hamddiffyn rhag croes-heintio.

Dywedodd staff wrthym fod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu cynnal bob dau fis. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd y practis bob amser yn cofnodi canlyniad trafodaethau'r cyfarfodydd hynny. Yn ogystal, dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, yn ddyddiol weithiau, i drafod materion y practis a materion perfformiad. Cadarnhawyd hyn gan y staff.

Roedd gan staff fynediad at bolisiâu addas yn y practis a oedd wedi'u diweddarau ac yn eu helpu wrth eu gwaith, a gwelsom rai ohonynt yn ystod yr arolygiad hwn. Fodd bynnag, hysbyswyd y practis o'r angen i nodi'n amlwg y dyddiad y mae polisiâu'n cael eu creu ac yna'n cael eu hadolygu, er mwyn galluogi staff i wybod a ydynt yn edrych ar y fersiwn cyfredol/blynyddol.

Gwnaethom edrych yn fanwl ar y trefniadau ar waith mewn perthynas â pholisi a gweithdrefn gwyno (pryderon) y practis. O ganlyniad, gwelsom nad oedd y polisi'n dynodi'r amserlenni cywir ar gyfer ymdrin â chwynion gan gleifion y GIG neu gan gleifion preifat (mewn perthynas â chydabyddiaeth o bryderon/cwynion). Gwelsom hefyd nad oedd y polisi'n hysbysu cleifion y GIG am eu hawl i dderbyn cymorth gyda'u cwynion neu bryderon gan y Cyngor Iechyd Cymuned Lleol. Trafodwyd y materion uchod gyda rheolwr y practis a ddiwygiodd y dogfennau polisi yn ystod yr arolygiad. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion yn y ddwy flynedd diwethaf.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y wybodaeth am gwynion yn cydymffurfio â gofynion taflen 'Gweithio i Wella' y GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.***

Gwelwyd amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis oedd yn dangos fod systemau a phrosesau addas ar waith, yn gyffredinol, i sicrhau bod offer yn cael ei archwilio'n amserol ac yn unol â'r gofynion gorfodol.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiad â rheoliadau a safonau perthnasol. Er na

wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg yn y cyswllt hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

### **Yn gyffredinol, roedd adeilad y practis yn darparu amgylchedd diogel a glân i gleifion dderbyn triniaeth.**

Mae Jamie Pugh Dental Health Ltd. (a sefydlwyd gan y prif ddeintydd yn 2001) mewn adeilad manwerthu sydd wedi cael ei addasu yng nghanol Aberdâr. Nid oedd unrhyw lefydd parcio dynodedig ar gael yn y practis; ond roedd maes parcio lle codir ffi o fewn pellter byr o'r practis.

Roedd gan y practis dderbynfa ar y llawr daear a dau fan aros, yr oedd un ohonynt ar y llawr cyntaf. Cadarnhaodd arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad fod maint y manau aros yn briodol ar gyfer y ddwy ddeintyddfa yn yr adeilad, yr oedd y ddwy ohonynt ar y llawr daear. Gwelwyd fod y drysau i'r ddwy ddeintyddfa'n ddigon llydan i alluogi cleifion ag anawsterau symudedd i gael mynediad at ofal a thriniaeth.

Roedd toiled i'r cleifion a'r staff ar y llawr daear; ac roedd drws digon llydan ar doiled y cleifion i ganiatáu mynediad i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd y sinc yn nhoiled y cleifion yn ddigon isel ar y wal i'r holl gleifion allu ei ddefnyddio; fodd bynnag, nid oedd unrhyw addasiadau eraill wedi cael eu gwneud (fel canllawiau). Roedd dwy ardal y toiledau'n lân ac roedd sebon a thywelion papur ynddynt.

Roedd ystafell fechan, ond ar wahân ar gael ar y llawr daear i gleifion siarad â staff ynghylch materion cyfrinachol, yn ôl yr angen.

Gwelsom fod yr ardal aml-ddefnydd/dadheintio yn fach iawn ac yn anniben. Yn ogystal, roedd darn mawr o offer pelydr-X yn agos at yr awtoclaf. Mae hyn yn peri perygl posibl o anaf i gleifion a/neu staff.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

### ***Hysbysir y practis o'r angen i osod y peiriant orthopantomogram <sup>6</sup>(OPT) mewn ardal lle y gellir ei weithredu'n ddiogel.***

Datgelodd sgwrs am y materion uchod bod y practis yn bwriadu creu ystafell ddadheintio ar wahân yn yr adeilad yn y dyfodol agos iawn. Cawsom weld dyluniadau ysgrifenedig yn ystod yr arolygiad hwn.

---

<sup>6</sup>System yw OPT sy'n gallu tynnu llun pelydr-X panoramig (y geg gyfan).

Gwelsom dystysgrif yswiriant atebolrwydd yn cael ei harddangos a gwelsom ei bod yn ddilys.

Dim ond un allanfa dân oedd yn yr adeilad; a honno oedd y fynedfa flaen. Roedd y diffoddyddion tân wedi cael eu gwirio gan gorff allanol yn 2014.

Roedd enw a chymwysterau'r perchennog/prif ddeintydd wedi'u harddangos yn glir ar flaen yr adeilad. Nid oedd enw a chymwysterau'r deintydd cyswllt wedi'u harddangos.

Roedd pob rhan o'r adeilad yn lân, yn ffres, yn daclus a chroesawgar. Gwnaethom sylwi fod y practis wedi'i wresogi a'i awyru'n ddigonol a bod goleuadau addas yno.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr argymhellion yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Jamie Pugh Dental Health Ltd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Pan gytunir ar y cynllun gwella caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

**Atodiad A**

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Jamie Pugh Dental Health Ltd.**

**Dyddiad yr Arolygiad: 18 Chwefror 2015**

<b>Rhif y Dudalen</b>	<b>Argymhelliad</b>	<b>Cam Gweithredu'r Practis</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>	<b>Amserlen</b>
	<b>Profiad y Claf</b>			
Tudalen 7	Dylai proses gwyno'r GIG fod yn fwy gweladwy i gleifion a dylai gynnwys manylion y Cyngor Iechyd Cymuned Lleol.  Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Unioni Cam) (Cymru) Drafft 2010- 4.8			
Tudalen 7	Hysbysir y practis o'r angen i roi manylion i gleifion preifat am eu hawl i ddwyn pryderon at sylw AGIC fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.  Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	2008 - Rheoliad - 16 (2)			
<b>Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru</b>				
Tudalen 9	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod rheolau lleol yn cael eu harddangos yn glir ym mhob deintyddfa. Yn ogystal, rhaid i ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd y practis gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau cyfredol a safonau'r GIG.</p> <p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Dinoethiad Meddygol) 2000</p> <p>Safonau 3d, 4, 7a, 16a, 16f y GIG.</p>			
Tudalen 9	<p>Hysbysir y practis am yr angen i arddangos arwyddion rhybudd priodol yn y rhan o'r practis lle defnyddir offer pelydr-X.</p> <p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Dinoethiad Meddygol) 2000</p> <p>Safon 1b y GIG</p>			
Tudalen 10	<p>Hysbysir y practis am yr angen i sefydlu system ar gyfer archwiliad ffurfiol/gwerthusiad arfer o ansawdd</p>			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	delwedd (pelydr-X) fel sy'n ofynnol gan Reoliadau IR(ME)R 2000 a safon 6a y GIG.			
Tudalen 10	Hysbysir y practis am yr angen i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei osod ar wahân mewn cynwysyddion addas ar gyfer ei waredu, yn unol â Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 a 13d a 15a y GIG.			
Tudalen 12	<p><b><u>Mater o Sicrwydd Ar Unwaith</u></b></p> <p>Ar hyn o bryd mae'r practis yn torri Adran 11 Deddf Safonau Gofal 2000. Mae hyn oherwydd eich bod yn parhau i weithredu fel sefydliad heb fod wedi cofrestru'n briodol.</p> <p>Yn benodol, yn ystod ein harolygiad ar 18 Chwefror 2015, gwelsom eich bod yn defnyddio cynnyrch laser Dosbarth 4, heb i'r practis fod wedi'i gofrestru'n briodol ar gyfer ei ddefnyddio. Cadarnhawyd hyn trwy archwilio deg o gofnodion cleifion, yr oedd tri ohonynt yn cyfeirio at y defnydd o'r laser Dosbarth 4 yn yr adeilad.</p> <p>Rhaid i chi roi'r gorau i ddarparu unrhyw driniaeth bellach yn defnyddio'r cynnyrch hwn heb fod wedi cofrestru'n briodol gydag AGIC i wneud hynny.</p>	<p><b>Anfonodd AGIC lythyr sicrhau ar unwaith at y practis yn dilyn y mater hwn.</b></p>		



Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>Mae'r cofrestrriad ar wahân i'ch cofrestrriad ag AGIC sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Er mwyn gweithredu laser Dosbarth 4 rhaid i chi gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a chofrestru'r practis fel ysbyty annibynnol.</p>			
Tudalen 12	<p>Mae angen i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC o dystysgrif cynnal a chadw cyfredol a dilys mewn perthynas â'r uned laser Dosbarth 4.</p> <p>Safonau 1b, 16 ac 16b y GIG.</p>			
Tudalen 12	<p>Hysbysir y practis o'r angen i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys digon o fanylion yn dilyn ymgynghoriadau a thriniaethau deintyddol. Mae hyn yn unol â safonau cyfredol 7a, 7a, 7a a 9b y GIG.</p>			
Tudalen 13	<p>Hysbysir y practis o'r angen i sicrhau bod tystiolaeth wedi ei chofnodi bod deintyddion yn ystyried hanesion meddygol cleifion newydd/wedi eu diweddarau.</p> <p>Safon GIG 7a.</p>			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
Tudalen 14	<p>Dylai staff dderbyn arfarniadau amserol i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, ac er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion hyfforddiant neu berfformiad.</p> <p>Safon GIG 25e</p>			
Tudalen 15	<p>Dylai'r practis sicrhau bod y wybodaeth am gwynion yn cydymffurfio â gofynion taflen 'Gweithio i Wella' y GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 16.</p>			
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				
Tudalen 16	<p>Hysbysir y practis am yr angen i symud y peiriant OPT i ardal lle y gellir ei weithredu'n ddiogel.</p> <p>Safon GIG 12d</p>			

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (wedi'i brintio):** .....

**Teitl:** .....

**Llofnod:** .....

**Dyddiad:** .....